Rota: Gorffennaf ac Awst
Agor a Croesawu - Mae angen enwau, William (Awst)
Paned - Ffion (Gorffennaf), Gwenan a Heledd (Awst)

**Stori Plant:**

| | |
|---|---|
| 3 | Steffan |
| 10 | Dafydd |
| 17 | Gwydion |
| 24 | Euryn |
| 31 | Steffan |

| | |
|---|---|
| 7 | Gwydion |
| 14 | Euryn |
| 21 | Dafydd |
| 28 | Steffan |


**Ysgol Sul:**

| | |
|---|---|
| 3 | Sylvia (Gwenan) |
| 10 | Delyth (Ffion) |
| 17 | Ann (Hywel) |
| 24 | Elin (Gwydion) |
| 31 | Sylvia (Jane) |

| | |
|---|---|
| 7 | Delyth (Bethan) |
| 14 | Ann (Huw) |
| 21 | Elin (Debs) |
| 28 | Sylvia (Lydia) |

**Cyfeilio:**

| | |
|---|---|
| 3 | Debs a Sarah, Heledd(nos) |
| 10 | Heledd a Gwydion, Debs(nos) |
| 17 | Hywel a Sarah, Ann(nos) |
| 24 | Debs a Gwydion, Heledd(nos) |
| 31 | Ann a Sarah, Ffion (nos) |
| 7 | Hywel a Ffion, Debs (nos) |
| 14 | Ffion a Jane, Heledd (nos) |
| 21 | Debs a Sarah, Ffion (nos) |
| 28 | Hywel a Gwydion, Heledd (nos) |




Capel y Ffynnon
Penrallt Isaf
Bangor
Rhif Ffon 01248 361117
E-bost dafyddmj@gmail.com
Safle wê - capelyffynnon.org

**E**styn allan yn
**E**ffeithiol i'r
Gymuned gyda
neges **B**erthnasol

# Capel y Ffynnon

## Taflen y Mis, Gorffennaf ac Awst, 2011




Yr ydym bob amser yn ein gweddïau yn diolch amdanoch
i Dduw, Tad ein Harglwydd Iesu Grist,

Colosiaid 1: 3

# Cyfarfodydd Gorffennaf ac Awst

## Suliau (10 a 6)

| Gorffennaf | Awst |
|---|---|
| 3 - Dafydd Job (Cymun Bore) | 7 - Dafydd Job (Cymun Bore) |
| 10 - Dafydd Job | 14 - Dafydd Job |
| 17 - Dafydd Job (Cymun Nos) | 21 - Dafydd Job (Cymun Nos) |
| 24 - Dafydd Jones (bore) | 28 - Dafydd Job |
| Dafydd Job (nos) | |
| 31 - Dafydd Job | |

## Cyfarfodydd Wythnosol

**Dydd Llun (yn y Capel yn ystod y tymor)**
**Ribidires** (9.30)

**Dydd Mawrth (yn y Capel yn ystod y tymor)**
**Cyfarfod gweddi** (12.30)

**Dydd Iau (7.30 yn y Capel)**
7 **Astudiaeth (Colosiaid 1)**
14 **Cwrdd gweddi**
21 **Cyfarfod gweddi cenhadol**
**Trefnir yn wythnosol o'r 21 ymlaen**

**Cyfarfod Merched***
Bore Sadwrn 9fed - Tŷ Nia

**Cyfarfod Dynion ***
I'w drefnu

**Bore coffi dysgwyr***
Bore Sadwrn 30 (11.00) - Capel
*dim cyfarfodydd ym mis Awst

## Gweddi:

Diolch i Dduw am ei ofal trosom dros y tymor diwethaf;

Gweddïwch y bydd pawb sy'n mynd ar wyliau dros y misoedd nesaf yn cael gorffwys ac y byddwn i gyd yn dod yn ôl yn saff at ein gilydd mis Medi;

Americanwyr - Bydd yr Americanwyr gyda ni (Gorffennaf 9-16) yn gwneud gwaith yn yr ysgolion ac o gwmpas y lle;

Ymgyrch yr eisteddfod - Bydd Dafydd Jones yn arwain y tîm efengylu ar y maes. Gweddïwch drosto a gweddill y tîm, wrth iddynt rannu'r efengyl;

Gwersylloedd - Gweddïwch dros rai o blant yr eglwys a fydd yn mynd i'r gwersyll; Cofiwn hefyd am Sarah a Debs (swogio ym Mryn y Groes) a Lydia (Swogio yn Llanmadog);

Ymgyrch y traethau - Gweddïwch yn arbennig dros y gwaith ym Menllech a Llandudno;

Steffan - llythyr gweddi MEC

Heledd - llythyr gweddi UFM

Yn yr astudiaethau Beiblaidd yr ydym wedi dechrau edrych ar lythyr Paul at y Colosiaid. Yn y bennod gyntaf gwelwn y geiriau yma:

*Oherwydd hyn, o'r dydd y clywsom hynny, nid ydym yn peidio â gweddïo drosoch. Deisyf yr ydym ar ichwi gael eich llenwi, trwy bob doethineb a deall ysbrydol, ag amgyffrediad o ewyllys Duw, er mwyn ichwi fyw yn deilwng o'r Arglwydd a rhyngu ei fodd yn gyfan gwbl, gan ddwyn ffrwyth mewn gweithredoedd da o bob math, a chynyddu yn eich adnabyddiaeth o Dduw. Yr ydym yn deisyf ar ichwi gael eich grymuso â phob grymuster, yn ôl nerth ei ogoniant ef, i ddyfalbarhau a hirymaros yn llawen ym mhob dim, gan ddiolch i'r Tad, yr hwn a'ch gwnaeth yn gymwys i gael cyfran o etifeddiaeth y saint yn y goleuni.*

Gwelwn gariad Paul at y Cristnogion yn Colosa yn glir yma - nid yw'n peidio gweddïo drostynt. Ond nid gweddïo annelwig sydd yma gan Paul, mae'n gweddïo am bethau sbesiffig. Mae am i Dduw fendithio'i ffrindiau drwy iddynt gael eu llenwi a phob doethineb a deall ysbrydol. Mae am iddynt fyw yn deilwng o'r Arglwydd a dwyn ffrwyth iddo gan ddod i'w adnabod yn well a deall ei bwrpas ar gyfer eu bywyd. Mae Paul yn gwybod y gall hyn fod yn anodd - felly mae'n gofyn am ddyfalbarhad ac ysbryd diolchgar.

Wrth i ni droi at weithgarwch yr haf, ac wrth i ni deithio i bob rhan o Gymru (a'r byd!) ar ein gwyliau, beth ddylai ein hagwedd ni fod tuag at ein gilydd? Er y byddwn yn gweld ein gilydd llai dros y misoedd nesaf - beth am i ni ymrwymo i weddïo mwy dros ein gilydd a dilyn esiampl Paul. Nid yw ein hanghenion ni yn wahanol i bobl Colosa - felly gadewch i ni fedru dweud ym mis Medi - nid ydym ni wedi peidio a gweddïo dros ein gilydd - er gogoniant i Dduw!

STEFF